## RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni , ddydd Iau, 7 Mawrth, 2019

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Gwener, 8 Mawrth, 2019. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Gwener, 15 Mawrth, 2019. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Llun, 18 Mawrth, 2019.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd), R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Richard Griffiths, G.O. Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts.

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Ieuan Williams

(2:00 y. p. tan 3:15 y. p.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 Moderneiddio Ysgolion ar Ynys Môn - Adroddiad yn dilyn cyhoeddi'r rhybudd statudol ar gyfer cau Ysgol Gynradd Biwmares, ehangu ac adnewyddu Ysgol Llandegfan ac adnewyddu Ysgol Llangoed, a chymeradwyaeth o'r cynnig gwreiddiol**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br>• **Cymeradwyo’r cynnig gwreiddiol, sef i adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed.**<br>• **Awdurdodi Swyddogion i barhau gyda’r broses o adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llangoed, cau Ysgol Biwmares, ac adnewyddu Ysgol Llangoed.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cydymffurfio gyda’r Côd Trefniadaeth Ysgolion 2013 a bwrw ymlaen gyda’r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Moderneiddio Ysgolion - Adroddiad Gwrthwynebu: Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo'r penderfyniad gwreiddiol, sef i gynyddu capasiti Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn.**<br><br>**Gwneir hyn drwy –**<br><br>• **Ddefnyddio'r adeilad presennol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 h.y. Blynyddoedd 3 i 6 a'i addasu;**<br>• **Adeiladau Bloc newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, sef Meithrin, Derbyn, Blynyddoedd 1 a 2;**<br>• **Ystyried ail-leoli'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg ar gampws Ysgol y Graig.**<br><br>**Byddai'r bloc newydd yn rhan o Ysgol y Graig, nid yn uned ar wahân.Y trefniant newydd i weithredu fel un ysgol ac nid fel dwy uned ar wahân.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cydymffurfio gyda'r Côd Trefniadaeth Ysgolion 2013 a bwrw ymlaen gyda'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |